

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH
20 Gorffennaf 2021, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, D Pritchard, W Williams, A Williams, E S Williams, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C McGregor, D Roberts, C Jones	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd Cyng W Vaughan.
2 DATGAN DIDDORDEB – Dim	
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.06.21. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4 MATERION YN CODI O'R COFNODION	
4.1	Cydgodfan Bws, Talwrn – Mae'r clerwr wedi anfon mesuriadau i'r cwmni yn ôl y gofyn
4.2	Damweiniau Sgwar Talwrn a Llangwyllog - Ymddiheurodd y Cyng D Pritchard am fethu â mynychu'r cyfarfod yn Llangwyllog. Cyfarfu'r Cynghorydd A Wyn ag Alun Roberts, swyddog y Cyngor Sir. E-bost gan Mr Roberts: <i>“Cafwyd cyfarfod ar safle Dydd Iau diwethaf gydag aelod o'r Cyngor Cymuned i edrych ar y sefyllfa yn Llangwyllog ac yn benodol yr arwyddion ger y tro yn y lôn wrth fynd dros y bont reilffordd.</i> <i>O ganlyniad i'r cyfarfod byddwn yn edrych i osod arwyddion mwy amlwg ar gyfer y tro ynghyd a marciau ARAF/SLOW ar gyfer gostwng cyflymder cerbydau wrth iddynt ddod i gyfeiriad y bont o'r ddwy ochr”</i> Mynychwyd y cyfarfod yn Talwrn gan y Cyng W Vaughan, ynghyd â Dr I G Jones a Mrs Orme. Nid oedd Dr Moyse yn gallu bod yn bresennol. Y gobaith yw gosod barrier, goleuadau sy'n fflachio a peed bumps yn Nhawrn.
	Llofnod.....Cadeirydd 21.09.21

4.3	Dwr ar lôn Benllech – Llanddyfnan – Mewn llaw
4.4	<p>Broadband - Ymateb gan Open Open trwy Rhun ap Iorwerth “<i>Our fibre team managed to get a site survey completed this week.</i></p> <p><i>They’re going to be covering the properties in Talwrn which currently don’t have FTTP. I’ve attached a screenshot of the area for clarity. It’s these premises in the centre we’ll be covering. The properties along the other road in Talwrn have FTTP already.</i></p> <p><i>Work will start as soon as possible and we hope to have services up and running in the next 3-4 months”</i></p>
4.5	Carthffosiaeth Talwrn – (adolygu) - Bydd y Cynghorydd E Williams yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf
4.6	Bin maes parcio Llyn Cefni - Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, nododd, bob tro y mae'n mynd yno gyda chyflenwad o fagiau, nad oes gwastraff na bagiau cŵn wedi'u llenwi o amgylch y dosbarthwr
4.7	Cytundeb Cors y Plwyf - Dywedodd y Clerc fod Mr a Mrs Jones yn barod i gwrdd â'r cyngor cymunedol, ond dim ond y Clerc. Gall weld y cytundeb ond ni fydd yn gallu copio. Mae'r cyngor yn ceisio helpu Mr a Mrs Jones ac yn ceisio sefydlu'r hawliau o ran pori a thorri gwair. Gan nad ydyn nhw'n barod i ryddhau copi o'r cytundeb, cytunwyd na fydd y cyngor yn cymryd rhan mewn unrhyw anghydfodau yn y dyfodol. Mae'r mater rhyngddynt a Cyfoeth Naturiol Cymru.
5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Priffyrdd
5.1	Cyfarfodydd Talwrn a Llangwyllog gweler 4.2
	Cynllunio
5.2	S106/2021/5 Cae Cam, Capel Coch - Cytunwyd i wrthwynebu'r cais oherwydd bod yr A106 wedi'i wneud at bwrpas.
5.3	LBC/2021/12 Siop y Maen, Maenaddwyn – dim sylwadau
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	Rhun ap Iorwerth – gweler 4.4
	Llofnod.....Cadeirydd 21.09.21

6.2	Dylan Southern RJD Developments - Cais gan Mr Southern am gyfraniad gan y Cyngor Cymuned tuag at drin Clymog Japan ar dir ger Bryn Brochon, Talwrn lle mae adeilad newydd yn digwydd. Bydd y Clerc yn cynghori Mr Southern nad yw'r cyngor yn gyfrifol am y tir hwn.
7	MATERION ARIANNOL Cytunwyd I dalu:
7.1	Eisteddfod Talwrn £300
7.2	Anglesey Computer Solutions £135.00
7.3	Hywel Hughes cyfieithu £71.82
7.4	Derbynwyd adroddiad yr archwilwyr mewnol - Ni chodwyd unrhyw beth gan yr archwilydd
8	MATERION ERAILL
8.1	Glaswellt rhwng y tai cyngor a'r hen Eglwys - mae'r gwaith wedi'i gwblhau
8.2	Ymgynghoriad tai haf/treth cyngor - cytunodd yr aelodau mai eu dewis fyddai codi'r premium i 100%
8.3	Torri gwair ochrau ffyrdd - Deallir bod y Cyngor Sir yn gweithio ar hyn
8.4	Derbyn adroddiad yr archwilwyr mewnol - Derbyniwyd adroddiad yr archwilydd mewnol. Roedd hwn yn adroddiad glân heb nodi unrhyw wallau.
9	MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF
9.1	Mae angen torri llwybr troed 101212F3
	Llofnod.....Cadeirydd 21.09.21